

NEWID
CWRICWLAIDD



 School Improvement
Pathways

Newydd
Argraffiad 2

Canllaw ar gyfer Rheoli Newid Cwricwlaidd yng Nghymru

Cefnogaeth i arweinyddion uwch a chanol

Ysgrifennwyd gan Finola Wilson a Jane Miller

Cynnwys

Cyflwyniad 2

Paratoi ar gyfer dyfodol addysg

Sut y gall *Dyfodol Llwyddiannus* fod yn sail i newid nawr 3

Yn ymarferol: paratoi am newid

Y cylch gwella 6

Rheoli newidiadau ym maes asesu

Strategaethau ar gyfer rheoli asesu 9

Rheoli pryderon staff 10

Y camau nesaf

Syniadau ar gyfer paratoi 11

Darllen pellach a chefnogaeth 11

Adnoddau defnyddiol 12

Adnoddau Gwasg Prifysgol Rhydychen 12

Offerynnau ar gyfer arweinydd

Offeryn 1: enghraifft o archwiliad 13

Offeryn 2: holiadur staff 14

Ôl-nodiadau 15

Yr awduron



Y mae Finola Wilson, Cyfarwyddwr *Impact School Improvement Ltd*: www.impact.wales, yn athrawes brofiadol, addysgwraig athrawon a hyfforddwraig, ac mae ganddi brofiad degawd o arbenigo mewn iaith a llythrennedd. Fel rhan o'i rôl yn Uwch-bartner y Rhaglen Gymorth Genedlaethol i *CfBT Education Trust*, Finola oedd yn arwain ar asesu, cofnodi ac adrodd ar lefel genedlaethol yng Nghymru wrth gefnogi ysgolion i weithredu gofynion y *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd*. Mae hi hefyd yn aelod o gorff llywodraethol ysgol uwchradd yn Abertawe.



Mae gan Jane Miller, hefyd yn Gyfarwyddwr *Impact School Improvement Ltd*: www.impact.wales, chwarter canrif o brofiad yn athrawes ac uwch-arweinydd ac mae ganddi brofiad eang o ddatblygu a sefydlu strategaethau addysgu a dysgu newydd. Fel rhan o'i rôl yn bartner y Rhaglen Gymorth Genedlaethol i *CfBT Education Trust*, Jane oedd yn arwain ar ddatblygu rhifedd ac ymresymu rhifyddol ar draws y cwricwlwm. Mae hi hefyd yn aelod o gorff llywodraethol ysgol uwchradd yng Nghaerffili.

Ar gyfer pwy y mae'r canllaw hwn?

Mae'r canllaw hwn wedi'i fwriadu ar gyfer arweinydd uwch a chanol sydd â chyfrifoldeb am ddeilliannau disgyblion, darpariaeth gwricwlaidd a datblygiad staff yn y sector gynradd yng Nghymru.

Diweddarwyd: Hydref 2018

Cydnabyddiaeth

Gwaith Celf: David Semple; T6,8,11,14 © Gwasg Prifysgol Rhydychen

Cyflwyniad

Mae yna newid sylweddol wedi bod yn y byd addysg yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae'n ymddangos fel pe bai'n dipyn o gamp i fynd i'r afael â'r newidiadau hyn, yn arbennig pan mae'r cwricwlwm ei hun yn cael ei weddnewid yn llwyr. Bwriad y canllaw hwn ydy cynnig amlinelliad clir o sut y mae'r newidiadau, o gyflwyno'r *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd* yn 2013 i ddarparu'r cwricwlwm newydd i Gymru ym mis Ebrill 2019, yn mynd i gael effaith ar eich disgyblion, eich staff a'ch ysgol. Yn anad dim, bydd y canllaw hwn yn edrych ar beth y gall pob arweinydd ysgol ac athro ei wneud nawr, gan gynnig syniadau ymarferol o ran paratoi a rheoli'r cyfnod trawsnewidiol cyn i'r cwricwlwm newydd i Gymru ddod yn ofyn statudol ym mhob cyd-destun addysgu ym mis Medi 2022.

Mae'r newidiadau yng Nghymru yn ystod y pum mlynedd diwethaf wedi bod y rhai mwyaf sylweddol ers cyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol (CC) yn 1988. Yn 2012, sbardunwyd newid wrth i'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA), arolwg rhyngwladol o sgiliau mathemateg, gwyddoniaeth a darllen disgyblion 15 oed, ddangos bod Cymru ar ei hôl hi o ran mathemateg mewn cymhariaeth â chanlyniadau Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon.¹ Comisiynodd Llywodraeth Cymru Yr Athro Graham Donaldson i gynnal adolygiad cwricwlaidd cynhwysfawr. Mae ei adroddiad *Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r trefniadau Asesu yng Nghymru*, yn cynnwys 68 o argymhellion, gyda phob un ohonynt wedi'u derbyn gan Lywodraeth Cymru.² Mae'r adolygiad wedi sbarduno llawer o newidiadau addysgol pellgyrhaeddol a fydd yn cael effaith sylweddol ar ysgolion.


Llinell amser newid cwricwlaidd

Dyddiad	Datblygiad	Effaith ar ysgolion
Medi 2017	Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl 2017–21 ³	Yn pennu gweithredoedd strategol ar gyfer gwella addysg yng Nghymru o 2017-2021, gan gynnwys beth a ddaw i ran ysgolion yn ystod y broses.
Tachwedd 2017	Lansio <i>Ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu</i> ⁴	Fframwaith ag iddo saith dimensiwn yn cael ei ddarparu i ysgolion i'w cefnogi i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd a chynyddu eu capasiti i addasu ar gyfer newid.
Haf 2018	Sefydlu Academi Arweinyddiaeth Addysgol Genedlaethol	Bydd yr Academi'n broceru ac yn sicrhau ansawdd rhaglenni arweinyddiaeth ar draws Cymru i gefnogi datblygiad arweinwyr mewn addysg.
Medi 2018	Bydd y profion cenedlaethol yn 'Asesiadau Personol' addasol	Prawf mathemateg gweithdrefnol cenedlaethol yn 2018, darllen yn 2019 a phrawf ymresymu yn 2020. Mae'r fformat addasol yn cynnig gwybodaeth ddiagnostig unigol i ddisgyblion a throsolwg grŵp i athrawon. Bydd dau gyfle, yn flynyddol, i ysgolion roi prawf i ddisgyblion.
Medi 2018	Ni fydd data asesu a chanlyniadau'r profion cenedlaethol yn cael eu cyhoeddi mwyach ar lefel ysgolion.	Cyhoeddir asesiadau athrawon yn erbyn lefelau'r CC a chanlyniadau'r profion cenedlaethol ar lefel genedlaethol yn unig, nid ar lefel ysgolion unigol. Symudir y data hwn o setiau data craidd Cymru gyfan ac o'r wefan <i>My Local School</i> .
Medi 2018	<i>Safonau Cenedlaethol Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth</i> ⁵ yn statudol	Dylai pob athro ac arweinydd ddefnyddio'r Safonau Proffesiynol i gefnogi eu datblygiad proffesiynol eu hunain.
Ebrill 2019	Dogfennau drafft y cwricwlwm ar gael	Yr holl ddogfennau cwricwlwm a fframweithiau cynnydd ar gael ar gyfer eu hadolygu a chynnig adborth arnyn nhw, gan gynnwys y datganiadau 'Beth sy'n bwysig' a Fframweithiau Cynnydd y Meysydd Dysgu a Phrofiad.
Medi 2020	Cyhoeddi'r dogfennau cwricwlwm terfynol	Bydd holl ysgolion Cymru yn gallu dechrau defnyddio'r dogfennau cwricwlwm terfynol i baratoi ar gyfer y lansio statudol ym mis Medi 2022.
Medi 2020	<i>Y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg</i> ⁶ yn statudol	Bydd angen i ysgolion lynu wrth Gynllun Datblygu Unigol (CDU) er mwyn cynllunio, cadw golwg a chefnogi anghenion dysgu ychwanegol disgyblion.
Medi 2022	Cwricwlwm newydd ar gyfer Meithrin i Flwyddyn 7 yn dod yn statudol	Bydd rhaid i'r holl ddarpariaethau ddefnyddio dogfennau Cwricwlwm Cymru i gynllunio, addysgu a chadw golwg ar gynnydd disgyblion.
Medi 2023–2026	Cwricwlwm newydd ar gyfer Meithrin i Flwyddyn 7 yn dod yn statudol	Rhaid i athrawon ysgolion uwchradd ddechrau defnyddio dogfennau'r Cwricwlwm Newydd i Gymru fesul blwyddyn gan orffen yn 2026 gyda Blwyddyn 11.

Paratoi at ddyfodol addysg

Sut y gall Dyfodol Llwyddiannus arwain at newid nawr

Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o Gwricwlwm a Threfniadau Asesu yng Nghymru, ydy gweledigaeth Llywodraeth Cymru o ran addysg a chwricwlwm newydd i Gymru. Wedi'i arwain gan Yr Athro Graham Donaldson, mae'n gosod cyfeiriad sy'n dra gwahanol i'r hyn a oedd ar waith yn y gorffennol. I fod yn barod am y weledigaeth a amlinellir yn *Dyfodol Llwyddiannus*, mae yna sawl egwyddor sylfaenol y gall ysgolion fynd i'r afael â nhw nawr, yn gysylltiedig ag argymhellion Donaldson ac sy'n gydnaws â'r cwricwlwm cyfredol.



Ffigur 1 – Strwythur y cwricwlwm newydd i Gymru o *Dyfodol Llwyddiannus* gan Yr Athro Graham Donaldson

1. Y pedwar diben

Mae'r Athro Donaldson yn neilltuo pennod gyfan i'r cysyniad o gwricwlwm a gaiff ei yrru gan ddibenion "syml a pharhaol". Mae meddu ar ddealltwriaeth gytûn o beth yw'r cwricwlwm a beth mae o'n ei wneud a pha fath o oedolion y mae'n eu creu, yn bwysig wrth i'r cwricwlwm newydd gynnig llai o fanylder na'r un sydd gennym ar hyn o bryd. Mae pedwar diben y cwricwlwm newydd yn cynnig fframwaith i athrawon sy'n rhoi cyfle iddyn nhw wneud dewisiadau ynghylch beth a sut i'w addysgu.

Mae'r dibenion yn ddatganiadau o fwriad i athrawon ac ysgolion. Mae Donaldson ei hun yn datgan y dylen nhw "gael eu datblygu trwy'r cwricwlwm". Cyfrifoldeb yr ysgol ydy adnabod pa ddatganiadau sydd angen eu datblygu fwyaf ac yna llunio dysgu a fydd yn datblygu'r sgiliau hyn gam wrth gam gan gynyddu'r priodoleddau, sgiliau a'r cymwyseddau hynny ar gyfer pob plentyn.

Pwyntiau gweithredu allweddol

- Defnyddio data megis Arolygon Bodlonrwydd Myfyrwyr, profion cenedlaethol ac ati i adnabod meysydd sydd angen eu datblygu yn erbyn pedwar diben y cwricwlwm newydd.
- Blaenoriaethu 'datganiadau pedwar diben' sy'n pery pryder o ran datblygiad y mwyafrif o ddisgyblion.
- Creu modelau o ddysgu sy'n mynd i'r afael â chynnydd yn y priodoleddau a amlinellir yn y pedwar datganiad o ddiben.
- Creu offerynnau dosbarth i ddisgyblion sy'n gallu eu helpu i gadw golwg ar eu datblygiad eu hunain yn erbyn agweddau gwan o'r pedwar datganiad o ddiben.
- Trafod disgwyliadau dysgu yn erbyn y pedwar diben gyda disgyblion, rhieni a'r gymuned ehangach mewn modd ecblyg gan ofyn am adborth ar gynnydd yr ysgol o ran y nodau hyn.

2. Beth ydy nodweddion athro ardderchog

Mae *Dyfodol Llwyddiannus* yn adnabod nodweddion allweddol athrawon ardderchog sy'n cydweddu â

phedwar pwrpas y cwricwlwm newydd. Mae'r bedair nodwedd o addysgu da yn cynnwys:

- arbenigedd pwnc a methodoleg ardderchog
- sgiliau rheoli dosbarth cadarn
- dealltwriaeth o sut y mae ffactorau cymdeithasol a seicolegol yn dylanwadu ar ddysgu
- y gallu i gyffroi ac ysbrydoli plant i ddod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae'r priodoleddau hyn wedi'u crisialu yn y cyhoeddiad *Safonau Cenedlaethol Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth*. Mae'r Safonau hefyd yn disgwyl y bydd athrawon yn defnyddio ymchwil yn sail i'w cwricwlwm a phenderfyniadau sy'n ymwneud â gwella'r ysgol ynghyd â chynnal ymchwil yn eu dosbarthiadau eu hunain ar ffurf ymchwiliad ymarferedd.

Pwyntiau gweithredu allweddol

- Defnyddio data cyfredol yr ysgol i adnabod arfer ardderchog ac agweddau sydd angen cefnogaeth a datblygiad.
Defnyddio blaenoriaethau gwella ysgolion ac adnoddau sy'n seiliedig ar ymchwil i adnabod strategaethau a roddwyd ar waith yn dilyn ymchwil i'w treialu.
- Creu rhwydweithiau cefnogi a'u defnyddio i fynd i'r afael ag agweddau lle mae gwendid trwy arsylwi a rhannu arferion.
- Gofyn i staff adnabod eu hunain fel pencampwyr un o nodweddion ardderchogrwydd Donaldson a sefydlu rhaglen ddysgu lle mae staff yn rhannu arbenigedd.
- Defnyddio sesiynau Dysgu Proffesiynol byrion i rannu llwyddiannau staff, dysgu ac adnoddau sy'n gysylltiedig â'r pedwar priodoledd o ardderchowgrwydd. Ymgymryd â gwaith dilynol ar syniadau a dreialwyd yn y dosbarth.
- Cefnogi staff i fod yn flaengar yn eu dosbarthiadau gan ddefnyddio strategaethau a roddwyd ar waith yn dilyn ymchwil a chloriannu'r effaith drwy ddefnyddio technegau ymchwiliad ymarferedd ar y cyd.

3. Egwyddorion addysgegol y cwricwlwm newydd

Y mae Donaldson yn datgan yn glir yn ei adolygiad nad oes unrhyw argymhellion yn cael eu gwneud o ran un egwyddorion addysgegol dros un arall a bod dewis

pa egwyddorion addysgegol i'w mabwysiadu yn ddewis i ysgolion ac athrawon unigol a hynny'n seiliedig ar anghenion y disgyblion a chyd-destun eu dysgu. Dylai pob athro/athrawes deimlo'n hyderus eu bod yn deall yn llawn ac yn gallu cymhwyso pob egwyddorion addysgegol er lles eu disgyblion. Dylai ysgolion ddefnyddio ymchwil i adnabod pa ddulliau addysgegol a fydd o'r budd mwyaf i'w disgyblion. Gellir gwneud hyn drwy ddefnyddio offerynnau megis *The Sutton Trust Toolkit* (a luniwyd mewn cydweithrediad â'r *Education Endowment Foundation*). Mae'n amlinellu effaith a thystiolaeth i gefnogi'r dulliau addysgegol. Hefyd, mae ymchwil a gynhaliwyd gan y SCYA yn adnabod strategaethau allweddol ysgol-gyfan, yn cynnwys dulliau addysgegol i gau'r bwlch cyrhaeddiad. Man cychwyn da ydy'r rhestr o'r 12 o egwyddorion addysgegol a gynhwysir yn *Dyfodol Llwyddiannus* sy'n cysylltu'n uniongyrchol â phedwar diben y cwricwlwm newydd.⁸

Pwyntiau gweithredu allweddol

- Cynnal arolwg ymhlith staff i weld pa mor hyderus y maen nhw'n teimlo o ran cynnwys ac effaith posibl ar ddysgu pob un o'r egwyddorion addysgegol. Mynd i'r afael ag anghenion dysgu proffesiynol athrawon drwy ddarparu cefnogaeth a gaiff ei gefnogi gan ffrwyth ymchwil i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u hyder wrth ymdrin ag egwyddorion addysgegol blaenoriaethol. Mae rhagor o wybodaeth am y Safonau ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth ar [wefan Dysgu Cymru](#).
- Cysylltu asesiadau sydd wedi'u cofnodi gyda dulliau addysgegol ac ystyried cynnydd ymhlith disgyblion fel mesur effeithiolrwydd yr addysgeg. Casglu rhain mewn e-bortffolios o waith disgyblion sydd wedi'u hasesu, yn unol ag argymhellion Donaldson.
- Creu casgliad darluniadol o'r holl strategaethau dysgu a roddwyd ar waith gan staff yn ystod wythnos er mwyn asesu'r ystod a rhannu arfer dda. Cadw hwn mewn portffolio digidol a ellir ei gysylltu ag e-bortffolios disgyblion er mwyn arfarnu'r strategaethau yn erbyn cynnydd yn sgiliau'r disgyblion.
- Rhoi amser ar ddechrau gwersi i ddisgyblion weithredu ar adborth y gwersi blaenorol a chwblhau gweithgareddau gwella ac adlewyrchu. 'Er enghraifft, gallant newid adroddiad o'u gwaith eu hunain i ddialog er mwyn cadarnhau eu sgiliau atalnodi.
- Arfarnu arfer cyfredol er mwyn adnabod a rhannu enghreifftiau sy'n adlewyrchu egwyddorion addysgegol Donaldson ac i dynnu sylw at agweddau sydd angen mwy o gefnogaeth.

4. Cyfrifoldebau traws-gwricwlaidd

Bydd tri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd i'r cwricwlwm newydd: llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Mae'r cwricwlwm hefyd yn dwyn ynghyd y pynciau sy'n rhannu sgiliau a chynnwys. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i ganlyniadau PISA siomedig drwy gyflwyno cwricwlwm newydd. Er mwyn cystadlu yn y byd modern, mae disgyblion angen y sgiliau a ddisgwylir gan gyflogwyr yr unfed ganrif ar hugain, megis dyfeisgarwch, creadigrwydd a sgiliau rhyngpersonol da. Gall ysgolion baratoi disgyblion drwy sicrhau eu bod yn gallu cymhwyso'r sgil briodol i gyd-destunau go iawn fel eu bod wedi'u harfogi i fedru cydweithio, meddwl yn feirniadol, ymresymu'n effeithiol, defnyddio technoleg yn greadigol a gallu datrys problemau.

Pwyntiau gweithredu allweddol

- Defnyddio'r holl ddata meintiol ac ansoddol sydd ar gael i adnabod un flaenoriaeth ar gyfer pob cyfrifoldeb trawsgwricwlaidd a gaiff ei ddatblygu ar draws yr ysgol trwy Ddysgu Proffesiynol, strategaethau addysgu a gwaith disgyblion. Er enghraifft, gellir defnyddio data eich profion cenedlaethol i adnabod sgiliau allweddol sydd angen eu gwella ar draws yr ysgol gyfan.
- Ffurio perthynas gyda chyflogwyr lleol a'u cael i ymwneud â thasgau go iawn ar gyfer disgyblion sy'n datblygu'r sgiliau y maen nhw eu hangen. Er enghraifft, sicrhau cymorth asiant gwerthu tai i drefnu prosiect sy'n creu'r mesuriadau, y cyfrifo ariannol a'r dogfennau sydd eu hangen i werthu tŷ.
- Cydweithio gyda staff pynciol uwchradd i adnabod sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol sydd eu hangen ar bynciau ac i'w datblygu ymhellach. Defnyddio blaenoriaethau datblygu traws-sector a rhannu sgiliau a chreu gweithgorau pwnc er mwyn gwella cynllunio gwersi ar gyfer y blaenoriaethau hyn.
- Defnyddio tasgau cyfoethog go iawn a dilys sydd wedi'u cynllunio i ddatblygu'r sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol y mae disgyblion angen eu gwella. Enghraifft dda ydy prosiect *entrepreneur* lle mae disgyblion yn ymwneud â rhedeg caffi neu siop yn yr ysgol. Mae gweithgareddau fel hyn yn rhoi cyfle i ddisgyblion ddatblygu mewn meysydd allweddol megis rhifedd ariannol a llafaredd mewn cyd-destun go iawn.

5. Meysydd Dysgu a Phrofiad

Yng nghwricwlwm newydd Cymru, trefnir y pynciau mewn Meysydd Dysgu a Phrofiad a bydd un ddogfen cwricwlwm gyffredin ar gyfer yr holl bynciau a gynhwysir yn y Maes. Bydd y ddogfen cwricwlwm hon yn amlinellu prif syniadau'r Maes Dysgu yn y datganiadau Beth sy'n Bwysig. Y bwriad ydy i'r dogfennau cwricwlwm ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad gwmpasu'r sgiliau, profiad a phrif gysyniadau sy'n greiddiol i bob maes. Mae grwpiau arloesol wedi bod yn gweithio'n galed i ddiffinio a mireinio'r datganiadau Beth sy'n Bwysig. Mae dwy fersiwn eisoes wedi'u cyhoeddi gyda'r fersiwn derfynol i'w rhyddhau ar ffurf drafft ym mis Ebrill 2019. Yn dilyn cyfnod o ymgynghori ar y fersiwn ddrafft, caiff y datganiadau terfynol eu rhyddhau, ynghyd â gweddill y cwricwlwm ym mis Medi 2020.

Dylai ysgolion baratoi at strwythur diwygiedig y cwricwlwm drwy ystyried nid yn unig gynnwys y cwricwlwm ond eu strwythur staffio a'r modd y maen nhw'n trefnu eu cyfleoedd Dysgu a Chydweithio Proffesiynol. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu sefydliadau addysg uwch i greu deunyddiau enghreifftiol ar gyfer pob un o'r Meysydd Dysgu ynghyd â chynghor ynghylch dulliau addysgegol priodol. Unwaith y caiff ei gyhoeddi, dylai hwn fod yn adnodd amhrisiadwy i ysgolion wrth iddyn nhw asesu a pharatoi ar gyfer gwneud hynny.

Pwyntiau gweithredu allweddol

- Sut y gallwch chi, fel ysgol, gynnig cyfleoedd i staff weithio gyda'i gilydd a chydweithio oddi mewn i'w timau Meysydd Dysgu a Phrofiad? Sut y bydddech chi'n aildrefnu cyfrifoldebau cwricwlaidd fel eu bod yn adlewyrchu strwythur y Meysydd Dysgu a phrofiad newydd?
- Rhowch amser i staff edrych ar fersiynau drafft y datganiadau Meysydd Dysgu a Phrofiad fel eu bod yn gallu adnabod disgwyliadau newydd neu wahanol i'w cymharu â'r cwricwlwm cyfredol.
- Rhowch amser i staff gydweithio ar gynllunio Maes Dysgu a Phrofiad. Gofynnwch iddyn nhw edrych yn ofalus ar ddrafft y datganiadau Beth sy'n Bwysig a cheisio adnabod agweddau sy'n gyffredin i'r cwricwlwm cyfredol y gellir eu haddysgu mewn modd mwy cydlynus fel paratoad ar gyfer gofynion y cwricwlwm newydd.
- Peidiwch â diwygio eich cwricwlwm yn unol â'r datganiadau Beth sy'n Bwysig eto; arhoswch nes y bydd y datganiadau a'r dogfennau cwricwlwm yn rhai terfynol.

Yn ymarferol: paratoi am newid

Yr her o ran yr holl newid parhaus ydy sut i baratoi staff, systemau a phrosesau ar gyfer y newidiadau presennol a rhai'r dyfodol. Mae'r adran hon yn adnabod y gweithrediadau allweddol sydd eu hangen i reoli'r newidiadau a amlinellir yn *Dyfodol Llwyddiannus*, tra'n parhau i ddarparu o ran gofynion y cwricwlwm presennol. Gellir defnyddio'r cylch gwella pedwar cam, gweler isod, i godi safonau a gwella deilliannau i'r holl ddisgyblion ar draws yr ysgol. Gallwch hefyd ddefnyddio dogfen Llywodraeth Cymru: Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu¹⁰ i wirio eich cynnydd a'ch cynorthwyo i adnabod y camau nesaf yn y broses o wella.

Cylch gwella

Bydd defnyddio cylch gwella pedwar cam yn sicrhau proses drwyadl a chyffredin y mae pawb yn ei deall ac yn gallu ei defnyddio'n effeithiol.

Bwriad y cwestiynau canlynol ydy cefnogi'r broses o wella ysgolion, helpu sut i adnabod arfer dda ynghyd ag agweddau ar gyfer eu datblygu ymhellach.

Defnyddio'r cylch gwella pedwar cam i ddatblygu sgiliau disgyblion



Cam 1: Archwilio ac asesu

Casglu data a fydd yn mesur llwyddiant a chynnydd cyfredol er mwyn pennu targedau

Mae Cam 1 yn ymwneud ag adnabod pa sgiliau neu faterion eraill y mae disgyblion eu hangen fwyaf. Mae'n cefnogi asesu cynnydd cyfredol a fydd yn sail i gynllunio strategol.

- Beth mae'r data yn ei ddatgelu am sgiliau a gwybodaeth addysgeg y staff? Pa fath o raglen gefnogi a chydweithio y byddwch chi'n ei datblygu i helpu staff wella o ran yr agweddau hyn? Pa gyfleoedd fydd i staff fesur a chadw golwg ar eu cynnydd yn erbyn y Safonau Proffesiynol?
- Beth y mae data'r ysgol yn ei ddatgelu am sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth a chynnydd disgyblion? Mae defnyddio gwybodaeth ddiagnostig y Profion Cenedlaethol ar lefel sgil yn hanfodol er mwyn adnabod blaenoriaethau a fydd yn datblygu'r cwricwlwm.
- A oes angen datblygu pellach ar rai sgiliau mewn mwy nag un agwedd yn yr ysgol, e.e. pynciau?
- Beth ydy'r tri sgil a gaiff eu blaenoriaethu ar draws ystod o ddata ansoddol a meintiol? Pa Ddysgu Proffesiynol a fydd angen ei ddarparu er mwyn sicrhau ardderchowgrwydd wrth addysgu'r sgiliau hyn? Pa mor dda y mae disgyblion yn perfformio mewn perthynas â'r sgiliau hyn? Pa mor fanwl ac effeithiol ydy'r asesu a'r adborth ar gyfer y sgiliau hyn? Pa ddisgwyliadau o'r datganiadau yn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth yr ymdrinnir â hwy yn ystod y broses hon?
- I ba raddau y mae cynnydd yn gydnaws â disgwyliadau cwricwlaidd blyneddol? Ydy sgiliau disgyblion yn uwch neu'n is na rhai'r grŵp blwyddyn gronolegol?
- Sut mae cynnydd yn cymharu â chyd-destunau tebyg? Sut y mae safonau'n cymharu ag ysgolion eraill? Sut mae eich olrhain sgiliau chi'n cymharu gydag asesiadau diwedd cyfnod allweddol?

Cam 2: Cynllunio strategol

Adnabod ac amlinellu camau allweddol ar lwybr llwyddiant

Mae Cam 2 yn ymwneud ag adnabod agweddau sydd angen eu gwella, pennu targedau allweddol a chynllunio ar gyfer sut i'w cyflawni. Mae'r broses yn cynnwys adnabod sut, pryd a phwy a fydd yn

cwblhau pob gweithrediad a sut yn union y bydd y gweithrediadau a'r llwyddiannau hynny'n edrych.

- Faint o amser y gallwch chi ei glustnodi i weithredu strategaethau i'ch helpu chi gyflawni eich targedau? Beth ydy'ch cerrig milltir allweddol?
- Faint yn union o gynnydd yr ydych yn disgwyl ei weld yn erbyn pob sgil blaenoriaeth? A fydd y cynnydd yn ganran o'r disgyblion sy'n cyflawni disgwyliadau cronolegol neu a fydd yn ganran gwella sgil penodol yn y profion cenedlaethol?
- Sut y byddwch chi'n rhannu eich gweledigaeth ac yn cynllunio gyda staff a llywodraethwyr?
- Sut y bydd pob gweithred yn cysylltu gyda datganiadau o'r Safonau Proffesiynol fel bod staff yn gallu cadw golwg a mesur eu cynnydd eu hunain?
- Pwy fydd yn cwblhau pob gweithrediad a sut y cânt eu cefnogi i wneud hynny?
- Ydy eich cynllun yn barod am yr annisgwylidig?
- Beth ydy gofynion cynnydd disgyblion a Dysgu Proffesiynol?
- Defnyddiwch y model *Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu* gan Lywodraeth Cymru i wirio pa mor bell ar hyd y ffordd o fod yn Sefydliad sy'n Dysgu yr ydych wedi cyrraedd. Bydd mynd trwy'r broses yn cynnig syniadau ynghylch beth y gallwch ei wneud nesaf.
- Ydy'ch cynllun chi'n caniatáu adolygu rheolaidd er mwyn adnabod strategaeth nad ydynt yn effeithiol, y rhesymau am hynny ynghyd ag unrhyw newidiadau angenrheidiol neu hepgor y strategaeth?
- Ydy'r targedau'n SMART: penodol, mesuradwy, cyflawnadwy, realistig ac wedi'u hamseru'n briodol? Bydd hyn yn eich galluogi i adnabod beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio ynghyd â sicrhau eich bod yn cyflawni'r targed a bennwyd yn yr amser sydd ar gael i wneud hynny.

Cam 3: Gweithredu

Rhowch eich cynllun gweithredu ar waith

Rhoi'r gweithrediadau a gynlluniwyd ar waith ydy Cam 3 y cylch gwella. Y mae'n bwysig deall y bydd angen addasu gweithrediadau ar dro yn unol â'r annisgwylidig a bydd angen cofnodi hyn ar gyfer bod yn sail i'r broses arfarnu.

- Ydych chi wedi gorfod addasu eich gweithrediadau oherwydd amgylchiadau annisgwyl? Beth oedd yr addasiadau a pham y gwnaethoch chi nhw?
- Sut y bydd pob gweithred yn cysylltu gyda datganiadau o'r Safonau Proffesiynol fel bod staff yn gallu cadw golwg a mesur eu cynnydd eu hunain?
- Sut y gwnewch chi ofyn i aelodau o'r staff sy'n ymwneud â rhoi'r gweithrediadau ar waith adrodd yn ôl yn ystod y cyfnod arfarnu? A oes yna gwestiynau allweddol y byddech chi'n hoffi i bawb a fu ynghlwm â'r gwaith eu hystyried yn ystod y cyfnod hwn?

Cam 4: Arfarnu effaith

Gwiriwch er mwyn gweld bod yr hyn a wnaethoch wedi gweithio a chytunwch ar y camau nesaf

Mae'r broses o wella yn gylch di-ddiwedd. Fel rhan o'r cylch, y mae'n bwysig arfarnu llwyddiant y gweithrediad fel ei fod yn sail i'r camau nesaf y bydd rhaid i chi eu cymryd. Cynhwyswch brosesau monitro ac arfarnu megis holiaduron staff a hunanasesu disgyblion er mwyn sicrhau llwyddiant parhaus. Bydd y camau hyn yn sicrhau disgwyliadau uchel ac addysgu a dysgu o ansawdd uchel a fydd yn arwain at welliant.

- Ydych chi wedi cynnwys prosesau monitro ac arfarnu megis holiaduron staff?
- Ydych chi wedi adrodd yn ôl eich prif ganfyddiadau i randdeiliaid allweddol?
- Sut y gallwch chi gadarnhau a dathlu llwyddiant?
- Pa gyfleon cydweithio sydd ar gael i archwilio natur yr heriau y mae eich staff wedi'u hwynebu yn ogystal â datrysiadau i'r heriau hyn?



Rheoli newidiadau mewn asesu


Mae asesu yn wastad wedi bod yn bwnc cynryfiadol i athrawon. Yng Nghymru, yn ôl adroddiad OECD diweddar ar addysg, dywed bod angen "... Sicrhau bod asesiadau myfyrwyr yn cefnogi dysgu i bawb ac yn gydnaws â nodau cenedlaethol."¹¹

Hyd nes i'r fframweithiau cynnydd ddod yn statudol ym mis medi 2022, disgwylir i ysgolion asesu disgyblion gan ddefnyddio model gweddu orau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a hynny ar ffurf asesiadau athrawon. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi nifer o ddogfennau o'r Prosiect Camau, menter gydweithredol gyda Phrifysgol Glasgow a Phrifysgol Y Drindod Dewi Sant.¹² Mae'r cyhoeddiadau hyn yn cynnig rhagflas o asesu yng Nghymru ar ôl 2022.

Disodlir Cyfnodau Allweddol y Cwricwlwm Cenedlaethol gan bum Cam Cynnydd ar gyfer oedrannau 5, 8, 11, 14 ac 16. Cynhwysir Deilliannau Cyflawniad ym mhob Cam Cynnydd ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad. Datganiadau byrion mewn iaith gyfeillgar i ddysgwyr fydd y Deilliannau Cyflawniad hyn (Dw i'n gallu, Dw i wedi, ac ati) a fydd yn gyfeirnodau ar gyfer taith ddysgu pob disgybl. Bydd y Deilliannau Cyflawniad yn cwmpasu Datganiadau Beth sy'n Bwysig o bob Maes Dysgu a Phrofiad, yn mynd i'r afael â phedwar diben y cwricwlwm newydd ac yn cynnig dilyniant o ddysgu ar draws y cwricwlwm. Y prif wahaniaeth pwysig rhwng y Deilliannau Cyflawniad hyn a disgrifiadau lefel y Cwricwlwm Cenedlaethol ydy'r symud o fodel gweddu orau i gontinwmm o gynnydd lle bydd rhaid i asesu fod yn fanwl gywir ac yn canolbwyntio ar gynnydd. Mae gennym eisoes, yng Nghymru, bump o ddogfennau cwricwlwm sy'n mynd i'r afael â chynnydd: Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol a'r rhaglenni astudio diwygiedig ar gyfer Cymraeg, Saesneg a mathemateg.


Fel rhan o Ddysgu Proffesiynol cenedlaethol ar gyfer ysgolion, bydd Llywodraeth Cymru'n cynnig deunyddiau enghreifftiol, fel a wnaed ar gyfer y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Caiff y rhain eu llunio gan arbenigwyr yn y sector addysg uwch a byddan nhw'n amlinellu ffurf pob deiliant addysgol a'r dulliau addysgegol i'w defnyddio i fynd i'r afael â nhw.

Modelau asesu yng Nghymru



- Y mae'r model asesu crynodol yng Nghymru yn:
- parhau'n dameidiog o ran ei gywirdeb
 - cefnogi cwricwlwm cynnyrch
 - dibynnu'n helaeth ar brofiad arbenigedd pwnc
 - hen fodel y Cwricwlwm Cenedlaethol
 - "Anaddas i'r pwrpas" (Y Comisiwn Asesu).¹³

Modelau asesu yng Nghymru



- Mae'r model asesu ffurfiannol yng Nghymru yn:
- caniatáu i athrawon a disgyblion adnabod y camau nesaf
 - dangos yn glir sut y gwneir cynnydd
 - cefnogi cwricwlwm prosesyddol
 - cefnogi asesu disgybl a hunanaseesu
 - cynnwys 'Addysgu ymatebol' (Dylan Wiliam).¹⁴

Ffigwr 3 – Mae'r deigram yn dangos y ddau fodel asesu statudol sydd, ar hyn o bryd, yn ymddangos yn y rhaglenni astudio diwygiedig ar gyfer Saesneg, Cymraeg a mathemateg.

Ffactorau sy'n effeithio ar asesu yng Nghymru

Y mae yna nifer o ffactorau a all ddylanwadu ar natur asesu yng Nghymru sy'n werth eu hystyried wrth gynllunio unrhyw newid yn eich ysgol:

- Unwaith y byddir yn penodi arweinydd newydd i'r Blaid Lafur ym mis Rhagfyr 2018, y mae'n bosibl y bydd newid o ran y swydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ynghyd â newidiadau polisi posibl.
- Hyd nes y cyhoeddir mesurau atebolrwydd ar gyfer CA2 a CA3, anodd fydd dirnad sut y gall asesu weithio'n ymarferol yng Nghymru. Y mae *Dyfodol Llwyddiannus* yn disgwyl i asesu ganolbwyntio ar y broses ffurfiannol ac i benderfynu ar y camau nesaf, ond mae'r hyn sydd yn rhaid i ysgolion adrodd arno yn mynd i yrru'r modd y mae asesu'n gweithio mewn ysgolion.
- Argymhellir e-bortffoliau ar gyfer asesu gan *Dyfodol Llwyddiannus*.
- Y mae angen cefnogaeth ar athrawon i gilio oddi wrth fodel asesu gweddu orau lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol – mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod iddo wendidau amlwg – a chlosio at y continwmm o gynydd a argymhellir yn *Dyfodol Llwyddiannus*.

Strategaethau ar gyfer rheoli asesu

Rhoi'r dysgwr yn gyntaf

Mae ysgolion eisoes wedi'u hysbysu na fydd asesiadau yn erbyn lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn cael eu cyhoeddi ar lefel ysgolion unigol ac mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi ei ddymuniad i ddefnyddio atebolrwydd i gefnogi gwelliant. Bydd y modd y caiff ysgolion eu monitro o ran y defnydd o fesurau atebolrwydd yn penderfynu'r pwyslais a'r ffocws y bydd ysgolion yn ei osod ar asesu yn erbyn y cwricwlwm newydd. Fodd bynnag, mae nifer o weithrediadau y gall ysgolion fynd i'r afael â nhw nawr er mwyn sicrhau bod eu staff a'u disgyblion yn barod o ran asesu yn erbyn y Cwricwlwm newydd i Gymru.

“y strategaeth orau i ynrhyw ysgol sy'n rheoli asesu o fewn yr hinsawdd cyfredol o newid yng Nghymru ydy rhoi cynnydd disgyblion wrth wraidd eu system ac, fel y dywed Donaldson, asesu'r hyn sy'n cyfrif yn unig”¹⁵




Pwyntiau gweithredu allweddol

- Asesu cynnydd disgyblion gan ddefnyddio'r Llwybrau Cynnydd yn y *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd* wedi'i godio (FfLIRh) a gynlluniwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Cefnogi disgyblion i berchenogi eu dysgu eu hunain drwy ddefnyddio datganiadau disgybl-gyfeillgar y FfLIRh i gadw golwg ar eu cynnydd ac adnabod y camau nesaf.
- Cytuno ar safon yr ysgol o ran sgiliau blaenoriaeth Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol.
- Cynorthwyo staff i ddatblygu eu sgiliau asesu ffurfiannol drwy greu portffolio enghreifftiol digidol o waith disgyblion yn erbyn sgiliau blaenoriaeth Llythrennedd a Rhifedd, ynghyd â'r camau nesaf i'r disgybl.
- Defnyddio Lefelau'r CC yn unol â'u bwriad gwreiddiol, sef gwiriad diwedd cyfnod allweddol i weld cynnydd ar draws cohort neu ysgol gyfan ac o ran gofynion atebolrwydd.
- Sicrhau bod prosesau asesu yn yr ysgol yn rhoi sylw clir i ddatblygu sgiliau disgyblion, ac nid ar ddarnau unigol o waith.

Rheoli pryderon staff

Mae newid yn gythryblus ac mae newid trefniadol yn gallu bod yn gymhleth a llafurus. Mae newid trefniadol parhaus, fel yr ydym wedi'i weld yng Nghymru, yn gallu arwain at straen a blinder sylweddol i staff. Mae'r cwricwlwm a'r trefniadau strwythurol sy'n cydfynd ag o wedi gweld llawer o newidiadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae rhoi'r cwricwlwm newydd i Gymru ar waith yn mynd i fod ymhlith yr her fwyaf i staff. Defnyddiwch Ffigur 4 (wedi'i addasu o fodel *Change Curve*, Kübler Ross) i helpu staff adnabod ymhle ar y siwrnai y maen nhw a beth y gellid ei wneud i'w symud ymlaen tuag at fewnoli'r newid.



Ffigur 4 – Defnyddiwch yr offeryn hwn i fesur pa mor bell y mae staff ar y siwrnai o newid (wedi'i addasu o fodel newid gwreiddiol gan Elisabeth Kübler Ross).

Er mwyn cefnogi staff drwy newid cwricwlaidd, dilynwch y pedwar cam isod:

1. Blaenoriaethwch

- Archwiliwch llwyth gwaith y staff a sicrhewch bod amser wedi'i glustnodi a'r gefnogaeth angenrheidiol ar gael i wneud y gwaith pan gaiff targedau eu pennu er mwyn sicrhau llwyddiant.
- Sicrhewch bod newidiadau yn realistig ac yn berthnasol i flaenoriaeth – cyflawniad y disgyblion. Defnyddiwch lwybr sgil cyffredinol ar draws yr holl ysgol neu bynciau allweddol er mwyn caniatáu i staff ddysgu oddi wrth ei gilydd ac i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu'u dealltwriaeth o beth sydd angen ei wneud.
- Dewiswch un llwybr sgil ar gyfer ei ddatblygu fel bod yr holl brosesau monitro a hunanarfarnu sydd eu hangen ar yr ysgol, megis arsylwadau gwersi, craffu ar lyfrau a marcio i gyd â'r un ffocws wrth arfarnu eu llwyddiant.

2. Cyfathrebu

- Helpwch staff i ddygymod â newid trwy ddarparu digon o gyfleoedd i ymgysylltu â hyfforddiant.
- Diweddarwch staff a llywodraethwyr o ran datblygiadau fel eu bod yn rhan o'r un weledigaeth ar gyfer datblygu. Defnyddiwch e-fwletinâu, briffiadau staff a chyfarfodydd staff/llywodraethwyr i rannu a thrafod gwelediaeth yr ysgol. Byddwch yn barod am anghytuno ar dro.
- Gwrandewch ar staff a gadewch iddyn nhw roi adborth gonest trwy arolygon ar-lein, byrddau neu flychau awgrymiadau a chefnogaeth trwy raglenni 'buddy'. Sicrhewch fod staff yn gwybod eich bod yn gwrandao ar eu pryderon a bod rhywun yn mynd i'r afael â nhw.
- Sicrhewch bod staff yn teimlo eu bod o werth – gwrandewch ar beth maen nhw'n ei ddweud ac ewch i'r afael â'u pryderon. Defnyddiwch gyfarfodydd staff i egluro cynlluniau a thrafod rolau a chyfrifoldebau.

3. Cefnogaeth

- Sicrhewch bod y staff yn ymwybodol o arwyddion bod o dan bwysau a'u bod yn gallu'u hadnabod. Rhowch strwythurau ffurfiol ar waith sy'n galluogi staff i gydweithio o ran datrys eu pryderon. Mae cefnogi staff yn fwy na bwriad, mae angen iddo ymddangos yn y strwythurau staffio, amserlenni wythnosol a chynlluniau datblygu ysgolion.
- Rhowch amser i rannu syniadau a chynnydd o ran gweithrediadau sydd wedi'u blaenoriaethu. Sefydlwch bartneriaethau sy'n benodol yn mynd i'r afael â gweithrediadau newid. Canfyddwch bencampwyr a rheolwch sut y maen nhw'n darparu cefnogaeth i eraill. Darparwch hyfforddiant a chefnogaeth i'r pencampwyr hyn a'r coetsio a mentora er mwyn manteisio ar eu gwybodaeth a'u harbenigedd ac i gefnogi eu gwaith.

4. Diolchwch i'r staff

- Cydnabyddwch yn gyhoeddus ymdrech ac amser y mae staff yn ei roi i'r agenda gan sicrhau ymwneud y llywodraethwyr.
- Dathlwch lwyddiant o ran arweinyddiaeth a gweithrediadau staff a chofleidiwch y syniad bod camgymeriadau'n gyfleoedd dysgu.

AWGRYM ARDDERCHOG

Defnyddiwch yr holiadur staff yn adran Offerynnau i Arweinwyr y canllaw hwn i fesur lle mae staff arni o ran hyder a gwybodaeth am newid cwricwlaidd.

Camau nesaf

Awgrymiadau ardderchog ar gyfer paratoi

Mae'r awgrymiadau ardderchog isod yn wiriad terfynol. Maen nhw'n crynhoi'r holl faterion a wyntyllwyd yn y canllaw hwn ac yn cynnig man cychwyn da ar gyfer darparu gwell addysg i ddisgyblion.

- Ymglyfarwyddwch â strwythur y cwricwlwm newydd i Gymru a amlinellir yn *Dyfodol Llwyddiannus*.
- Defnyddiwch yr enghraifft o archwiliad yn adran Offerynnau i Arweinwyr y canllaw hwn i arfarnu effeithiolrwydd eich darpariaeth gyfredol ac i ystyried a ydyw yn gydnaws â *Dyfodol Llwyddiannus*.
- Canolbwyntiwch ar gynnydd disgyblion yn y sgiliau y maen nhw'n cael y trafferth mwyaf gyda nhw.
- Defnyddiwch yr adrannau yn y canllaw hwn i adnabod pump o weithrediadau allweddol i'w cwblhau gyda'ch staff i'ch helpu chi reoli newidiadau cwricwlaidd a pharatoi ar gyfer y cwricwlwm newydd.
- Canfyddwch unigolion blaengar ymhlith eich staff sy'n fodlon treialu a phrofi strategaethau a dulliau newydd.
- Cefnogwch dreialon arloesol ar raddfeydd bychain drwy roi rhyddid a chefnogaeth i'ch staff fethu yn ogystal â llwyddo.
- Rhannwch lle rydych chi arni gyda staff, rhieni, disgyblion, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach.
- Sicrhewch eich bod wedi diweddarau eich gwybodaeth am yr ymchwil diweddaraf a chanllawiau Llywodraeth Cymru gan ddechrau gyda'r adran Darllen pellach a chefnogaeth y canllaw hwn.
- Gofalwch am Ddysgu Proffesiynol eich staff ac mi wnânt hwy ofalu am anghenion dysgu eich disgyblion.

Darllen pellach a chefnogaeth

Llywodraeth Cymru (2017): *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl* (Cynllun gweithredu 2017–21) <https://gov.wales/topics/educationandskills/allsectorpolicies/education-in-wales/?skip=1&lang=cy>

Cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru sy'n dangos sut y bydd y system addysg mewn ysgolion yng Nghymru'n datblygu hyd 2021 er mwyn sicrhau gweithredu'r cwricwlwm newydd yn effeithiol.

Llywodraeth Cymru (2013): *Asesu ar gyfer dysgu a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol* <http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/131104-assessment-for-learning-and-the-nlnf-cy.pdf>

Dogfennau arweiniol i gefnogi ymarferwyr yn y gwaith o weithredu asesu ar gyfer dysgu trwy'r FfLIRh ar draws y cwricwlwm.

Organisation for Economic Co-operation and Development (OECD) (2017): *The Welsh Education Reform Journey A RAPID POLICY ASSESSMENT* <http://www.oecd.org/education/The-Welsh-Education-Reform-Journey.pdf> *Mae'r adroddiad hwn yn dadansoddi'r diwygiadau yn system addysg Cymru a fabwysiadwyd er 2014 ac yn cynnig argymhellion ynghylch y camau nesaf.*

Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru (2016): *Hyrwyddo Iechyd emosiynol, Lles a gwydnwch mewn ysgolion cynradd* <http://ppi.w.org.uk/files/2016/02/PPIW-Report-Promoting-Emotional-Health-Well-being-and-Resilience-in-Primary-Schools-Final.pdf> *Mae'r adroddiad hwn yn cyfuno tystiolaeth am hyrwyddo iechyd, lles a gwydnwch mewn ysgolion cynradd.*

Llywodraeth Cymru (2015): *Y Fargen Newydd ar gyfer y gweithlu Addysg: Defnydd effeithiol o ddata a thystiolaeth ymchwil* <http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150814-effective-use-of-data-cy.pdf>

Mae'r llyfryn hwn yn cefnogi ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau o ran gwneud defnydd effeithiol o dystiolaeth.

Estyn (Gorffennaf 2017): *Rheoli arian: Addysg ariannol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru* <https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/rheoli-arian-addysg-ariannol-mewn-ysgolion-cynradd-ac-uwchradd-yng-nghymru> *Arfarniad o ansawdd a darpariaeth addysg ariannol mewn ysgolion a sut y mae addysgu a dysgu'r agwedd hon wedi datblygu sêr cyhoeddi adroddiad blaenorol Estyn yn 2011.*

Estyn (Ebrill 2018): *Arloesi'r cwricwlwm mewn ysgolion cynradd* <https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Curriculum%20innovation%20in%20primary%20schools%20-%20cy.pdf> *Astudiaethau achos yn dangos sut y mae ysgolion cynradd yn addasu'u cwricwlwm er mwyn ymateb i her y cwricwlwm newydd.*

Estyn (Gorffennaf 2018): *Paratoi ar gyfer y Fframwaith Cymhwysedd Digidol (FfCD)*

<https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Preparing%20for%20the%20DCF%20cym.pdf>

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar sut y mae ysgolion yn dechrau sicrhau bod disgyblion yn datblygu'u cymhwysedd digidol; gwneir hyn drwy gynnig enghreifftiau o arfer arloesol.

Adnoddau Defnyddiol

Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (2014)

<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/nlnf/?lang=cy>

Bwriad y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLIRh) ydy helpu athrawon ymgorffori llythrennedd a rhifedd ym mhob pwnc i ddysgwyr 5–14 oed.

Llywodraeth Cymru (2015): *Cwricwlwm i Gymru: Ar drywydd llythrennedd a rhifedd*

<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/routes-to-literacy-and-numeracy/?lang=cy>

Dogfen statudol i ysgolion sy'n mynd i'r afael â dilyniant sgiliau'r dysgwyr rheiny sydd ag anghenion dysgu arbennig mwy cymhleth o ddechrau eu gyrfa ysgol. Mae'r ddogfen hon yn rhan o'r FfLIRh.

Estyn (Hydref 2017): *Arweiniad atodol: arolygu llythrennedd mewn ysgolion*

<https://www.estyn.llyw.cymru/dogfen/arweiniad-atodol-arolygu-llythrennedd-mewn-ysgolion>

Dogfennau arweiniol sy'n nodi'r egwyddorion, ystyriaethau ac adnoddau allweddol i arolygwyr mewn perthynas â llythrennedd.

Estyn (Hydref 2017): *Arweiniad atodol: arolygu rhifedd mewn ysgolion*

<https://www.estyn.llyw.cymru/dogfen/arweiniad-atodol-arolygu-rhifedd-mewn-ysgolion>

Dogfennau arweiniol sy'n nodi'r egwyddorion, ystyriaethau ac adnoddau allweddol i arolygwyr mewn perthynas â rhifedd.

Llywodraeth Cymru: *Blog Cwricwlwm i Gymru*

<https://cwricwlwmigymru.llyw.cymru/>

Gwybodaeth a diweddariadau gan Lywodraeth Cymru ac Ysgolion Arloesol.

Llywodraeth Cymru (2018): *Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) Canllawiau i ysgolion a cholegau yng Nghymru*

<https://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/stemguidance/?lang=cy>

Mae'r ddogfen hon yn cynnig canllawiau o ran darpariaeth gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM) ar gyfer disgyblion 3–19 yng Nghymru.

Llywodraeth Cymru (2018): *Dyfodol byd-eang – cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru*

<https://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/global-futures-a-plan-to-improve-and-promote-modern-foreign-languages-in-wales/?skip=1&lang=cy>

Mae'r ddogfen hon yn gosod nodau strategol ar gyfer ieithoedd tramor modern yng Nghymru 2015–2020.

Astudiaethau achos Estyn

Gwella lles disgyblion a'u hagweddau at ddysgu trwy gyfoethogi'r cwricwlwm

<https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/gwella-lles-disgyblion-a%E2%80%99u-hagweddau-ddysgu-trwy-gyfoethogi%E2%80%99r-cwricwlwm>

Cynllun cwricwlwm creadigol mwy hyblyg i ennyn diddordeb disgyblion

<https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/cynllun-cwricwlwm-creadigol-mwy-hyblyg-i-ennyn-diddordeb-disgyblion>

Asesu ar gyfer Dysgu a medrau meddwl


<https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/asesu-ar-gyfer-dysgu-medrau-meddwl>

Ehangu medrau entrepreneuriaidd disgyblion a gwella safonau

<https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/ehangu-medrau-entrepreneuriaidd-disgyblion-gwella-safonau>

Adnoddau Gwasg Prifysgol Rhydychen

Asesu ysgol-gyfan

Mae School Improvement Pathways yn cynnig y strwythur,  yr ymchwil a'r adnoddau i lywio gwelliant yn eich ysgol - drwy system ar-lein hygyrch. Mae yna dros 20 o 'lwybrau' gyda phob un yn eich tywys trwy bedwar cam allweddol i fynd i'r afael â gwahanol agwedd o wella ysgolion.

[Find out more about School Improvement Pathways](#)

Offerynnau ar gyfer arweinwyr

Offeryn 1: Archwiliad enghreifftiol

Bydd yr offeryn hwn yn eich helpu i ystyried ac arfarnu effeithiolrwydd eich darparariaeth o ran ei gydweddiad ag athroniaeth ac iaith *Dyfodol Llwyddiannus*. Bydd hefyd o gymorth wrth i chi adnabod anghenion hyfforddi a chefnogaeth eich staff yn ystod y cyfnod interim hwn cyn i'r cwricwlwm newydd ddod yn ofyn statudol. Gellir casglu tystiolaeth o ystod o ffynonellau, er enghraifft, arsylwi addysgu a dysgu neu drafodaethau gyda disgyblion a staff.

Datganiad	1 Yn sicr	2 I raddau	3 Ychydig	4 Dim o gwbl	Ddim yn siwr	Tystiolaeth
Cwricwlwm yr ysgol						
Rydym yn defnyddio'r pedwar pwrpas i'n cynorthwyo o ran cynnwys y cwricwlwm a fydd yn gweddu i anghenion ein disgyblion. <i>Ymhle mae hyn yn digwydd, sut mae'n cysylltu ag addysgeg?</i>						
Rydym yn gwneud cysylltiadau rhwng pynciau oddi mewn i'r Meysydd Dysgu a Phrofiad. <i>Ystyriwch sut y caiff topigau neu themâu eu cynllunio, eu darparu a'u hasesu.</i>						
Mae tystiolaeth o gynnydd mewn sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. <i>Ystyriwch sut y caiff cynnydd ei fesur mewn pynciau heblaw Saesneg, Cymraeg a mathemateg.</i>						
Mae'n darparu cyfleoedd dilys neu go iawn i ddisgyblion gymhwyso'u dysgu.						
Darpariaeth ar gyfer newid						
Defnyddir technoleg yn yr ysgol i gyfoethogi'r dysgu mewn pynciau ac ar draws y cwricwlwm. <i>Ceisiwch adnabod enghreifftiau o arfer dda ar gyfer datblygu cefnogaeth staff mewnol ac ar gyfer rhannu arferion.</i>						
Mae'r ysgol yn defnyddio e-bortffolios ar gyfer pwrpasau asesu. <i>Ystyriwch galedwedd, meddalwedd a'r hyfforddiant sydd angen ei roi ar waith ar gyfer staff.</i>						
Addysgu o ansawdd a Dysgu Proffesiynol y staff						
Mae ansawdd yr addysgu yn cyd-fynd â nodweddion athrawon ardderchog a amlinellir gan Donaldson.						
Mae amser digonol wedi'i glustnodi ac mae strwythurau staff yn eu lle i gefnogi Dysgu Proffesiynol fel eu bod yn barod am y cwricwlwm newydd yn y flwyddyn academiaidd hon.						
Mae metawybyddiaeth neu feddwl am ddysgu yn rhan o'r cwricwlwm cyfredol. <i>Os nad ydy metawybyddiaeth yn rhan o'r cwricwlwm cyfredol, a oes arbenigedd yn y maes hwn ymhlith eich staff?</i>						

Offeryn 2: Paratoi ar gyfer *Dyfodol Llwyddiannus* – holiadur staff

Paratoi am y cwricwlwm newydd i Gymru	1 Hyderus iawn	2 Hyderus	3 Ychydig o hyder	4 Ddim yn hyderus o gwbl	Dim yn siwr	Sylwadau
Pa mor hyderus ydych chi o ran eich dealltwriaeth o'r canlynol?						
Cynnydd yr Ysgolion Arloesol wrth baratoi at y cwricwlwm newydd a goblygiadau hyn i fi fy hun a fy ysgol.						
Llinell amser Llywodraeth Cymru o ran rhannu dogfennau'r cwricwlwm newydd.						
Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol a sut mae o'n cysylltu â'r cwricwlwm cyfredol.						
Asesu yn erbyn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.						
Strategaethau metawybyddiaeth.						
Offerynnau technoleg sy'n cyfoethogi addysgu a dysgu.						
Sut y bydd rhyddid ychwanegol y cwricwlwm newydd yn dylanwadu ar fy arferion.						

Pa agweddau o'r cwricwlwm newydd i Gymru uchod y byddech chi'n elwa o dderbyn datblygiad proffesiynol pellach arnyn nhw?

Capasiti unigol a llwyth gwaith	1 Yn dda iawn	2 Yn dda	3 Yn weddol	4 Dim yn dda o gwbl	Dim yn siwr	Sylwadau
Pa mor dda rydych chi'n teimlo eich bod yn ymdopi â'r isod						
Defnyddio pedwar diben y cwricwlwm newydd wrth gynllunio.						
Asesu yn erbyn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd/Fframwaith Cymhwysedd Digidol.						
Defnyddio asesiadau disgyblion yn sail ar gyfer cynllunio.						
Darparu tystiolaeth o gynnydd disgyblion oddi mewn i lwybrau sgiliau'r FFLIRh.						
Adrodd i rieni						
Y cynnydd yn y llwyth gwaith						

Beth ydy'ch pryderon mwyaf o ran gweithredu'r cwricwlwm newydd i Gymru a'r effaith ar eich llwyth gwaith a lefelau straen?

--

Cloi

A oes yna unrhyw sylwadau eraill yr hoffech chi eu rhannu ynghylch newidiadau cwricwlaidd diweddar a'r paratoi at y cwricwlwm newydd?

--

Diolch am gwblhau'r holiadur hwn.

DEWISOL

Enw _____

Ôl-nodiadau

- 1 Wheater, R., Ager, R., Burge, B. a Sizmur, J. (2013) *Cyflawniad Disgyblion 15 oed yng Nghymru: Adroddiad Cenedlaethol PISA 2012*. Slough: NFER. <http://www.nfer.ac.uk/publications/PQUK02/PQUK02Welsh.pdf>
- 2 Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru* © Hawlfraint y goron 2015. <http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/curriculum-for-wales-curriculum-for-life/why-we-are-changing/successful-futures/?lang=cy>
- 3 Llywodraeth Cymru (2017) *Addysg: cenhadaeth ein cenedl* © Hawlfraint y goron 2017. <https://beta.llyw.cymru/addysg-cenhadaeth-ein-cenedl>
- 4 Llywodraeth Cymru (2018) *Ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu* © Hawlfraint y goron 2018. <https://beta.llyw.cymru/ysgolion-fel-sefydliadau-syn-dysgu>
- 5 Llywodraeth Cymru (2017) *Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth* © Hawlfraint y goron 2017. <http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/170901-professional-standards-for-teaching-and-leadership-cy.pdf>
- 6 Llywodraeth Cymru (2018) *Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)* © Hawlfraint y goron 2018. <https://beta.llyw.cymru/deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru>
- 7 Education Endowment Foundation (EEF) (2018), *Teaching and Learning Toolkit*. London: EEF. <https://educationendowmentfoundation.org.uk/evidence-summaries/teaching-learning-toolkit>
- 8 Sharp, C., Macleod, S., Bernardinelli, D., Skipp, A. and Higgins, S. (2015) *Supporting the attainment of disadvantaged pupils: Briefing for school leaders*. London: DfE. <https://www.gov.uk/government/publications/supporting-the-attainment-of-disadvantaged-pupils>
- 9 Donaldson, G. (2015) op. cit.
- 10 OECD (2016) op. cit.
- 11 OECD (2017) *The Welsh Education Reform Journey: A Rapid Policy Assessment*. © OECD 2017. <http://www.oecd.org/education/The-Welsh-Education-Reform-Journey.pdf>
- 12 Hayward, L. et al. (2018) *CAMAU Project: Research Report (April 2018)*. Glasgow: University of Glasgow. <http://athrofa.cymru/wp-content/uploads/2018/06/CAMAU-Learning-about-Progression-Research-Report-2018.pdf>
- 13 DfE (2015) *Commission on Assessment Without Levels: final report*. © Crown Copyright 2015. <https://www.gov.uk/government/publications/commission-on-assessment-without-levels-final-report>
- 14 Dylan Wiliam: dyfyniad o'i gyfrif Trydar <https://twitter.com/dylanwiliam/status/393045049337847808>
- 15 Donaldson, G. (2015) op. cit.

